Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL
OFFICIAL PUBLICATIONS

LLGC NLW



William Ewart Gladstone 1809–1898 (por04237)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL

Mae statws Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel Llyfrgell Adnau Cyfreithiol yn sicrhau fod gennym gasgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau swyddogol o'r Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon. Mae'r casgliad yn cynnwys cyhoeddiadau print Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd San Steffan, Senedd yr Alban a'r Oireachtas, yn ogystal â chyhoeddiadau Llywodraeth Prydain, Llywodraeth Iwerddon, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Gweithredaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r Llyfrgell hefyd yn archifo nifer o wefannau cyhoeddus Cymreig ac yn tanysgrifio i'r gwasanaeth Public Information Online, UKOP a House of Commons Parliamentary papers.

CASGLIADAU'R DEYRNAS UNEDIG AC IWERDDON

Mae'r amrywiaeth eang o gyhoeddiadau Prydain ac Iwerddon yn cynnwys Deddfwriaeth Sylfaenol ac Offerynnau Statudol, Papurau Gorchymyn Tŷ'r Cyffredin, Hansard Seneddol ac adroddiadau. Ceir cyhoeddiadau tebyg o Iwerddon, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cyhoeddiadau swyddogol Cymreig yn y casgliad yn cynnwys Mesurau'r Cynulliad, adroddiadau pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, fel Offerynnau Statudol Cymreig, adroddiadau ar safonau addysg ac iechyd, bwletinau ystadegol, cyfnodolion a dogfennau ymgynghorol.

OFFICIAL PUBLICATIONS

The National Library of Wales' status as a legal deposit library ensures comprehensive coverage of official publications from the United Kingdom and the Republic of Ireland. The collection includes print publications of the National Assembly for Wales, the Northern Ireland Assembly, the United Kingdom Parliament, the Scottish Parliament and both Houses of the Oireachtas, together with the publications of the United Kingdom Government, the Irish Government, the Welsh Government, the Scottish Government, and the Northern Ireland Executive. The Library also archives several Welsh official websites and subscribes to the Public Information Online Service, UKOP and House of Commons Parliamentary papers.

UK & IRELAND COLLECTIONS

The wide variety of UK official publications includes Primary Legislation and Statutory Instruments, the Parliamentary Hansard, House of Commons Command Papers and reports along with the publications of Central Government Departments. Similar Irish, Scottish and Northern Irish publications are also held.

Welsh Official Publications in the collection include Assembly Measures and National Assembly Committee reports, together with Welsh Government publications including Welsh Statutory Instruments, Education & Healthcare Standards reports, statistical bulletins, periodicals and consultation documents.

Ar hyn o bryd mae'r Llyfrgell yn derbyn dros 25,000 o eitemau bob blwyddyn i'w hychwanegu at y casgliad Cyhoeddiadau Swyddogol. O dan delerau Deddf Hawlfraint 1911 a Deddf Adnau Cyfreithiol Llyfrgelloedd 2003, byddai'r Llyfrgell yn disgwyl gallu cwmpasu bron yr holl gyhoeddiadau fformat printiedig sydd wedi eu cyhoeddi ers 1911. Gwneir pob ymdrech i sicrhau y caffaelir pob eitem a gyhoeddir, serch hynny nid yw peth o ddeunydd yr Alban na Gogledd Iwerddon yn cael eu casglu, ond maent ar gael trwy danysgrifiad i *Public Information Online* (ar gael trwy e-Adnoddau Allanol y Llyfrgell - **www.llgc.org.uk/e-adnoddau**). Os yw'r eitem wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg neu o ddiddordeb Cymreig, mae'n bosib y prynir ail gopi i'w ychwanegu at gasgliad Cymreig y Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell wedi caffael rhai cyhoeddiadau swyddogol o'r 17eg ganrif a chyfresi sylweddol o'r 18eg a'r 19eg ganrif. Lle mae ailargraffiadau ar gael neu lle mae gweithiau ar gael mewn fformatau di-brint, mae'r fformatau hyn wedi eu caffael er mwyn llenwi'r bylchau yn naliadau'r Llyfrgell ac i ddiogelu'r copïau gwreiddiol.

CHWILIO'R CASGLIAD

Mae holl Gyhoeddiadau Print Swyddogol y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys y rhai o weinyddiaethau datganoledig sydd wedi eu cyhoeddi ers 1985 wedi eu rhestru yn y catalog cyflawn – **http://cat.llgc.org.uk/**. Rhestrir cyhoeddiadau cyn 1985 ar ficroffis sydd wedi eu lleoli yn Ystafell Ddarllen y Gogledd. Caiff rhai cyhoeddiadau arbennig megis Offerynnau Statudol, Papurau Gorchymyn, Papurau HC a HL, Deddfau a Mesurau, eu trin fel cyfresi, ond yn achos

The Library currently receives over 25,000 items each year to add to the Official Publications collection. Under the terms of the Copyright Act 1911 and the Legal Deposit Libraries Act 2003, the Library would expect to have almost complete coverage for all printed format official publications that have been published since 1911. Every effort is made to ensure that every item published is acquired, although some Scottish and Northern Irish material is no longer collected but made available via a subscription to *Public Information Online* (available under the Library's External E-resources – **www.llgc.org.uk/e-resources**). Where a title is published in Welsh or is of Welsh interest, a second copy may be purchased to add to the Library's Welsh collection.

The Library has acquired some 17th century and major runs of 18th and 19th century Official Publications. Where reprints are available or works are available in non-print formats, these formats have been acquired, both to fill gaps in Library holdings and to preserve the original copies.

SEARCHING THE COLLECTION

All UK and Irish print Official Publications, including those of devolved administrations published since 1985, are listed in the full catalogue – **http://cat.llgc.org.uk/.** Publications before 1985 are listed on microfiche, situated in the North Reading Room. Certain publications such as Statutory Instruments, Command Papers, HC and HL Papers, Bills & Acts are treated as serials but in the case of publications in Welsh or of Welsh interest where additional copies have been purchased they are treated as monograph publications and are listed

cyhoeddiadau yn y Gymraeg neu rai sydd o ddiddordeb Cymreig, lle mae copïau ychwanegol wedi eu pwrcasu, cânt eu trin fel cyhoeddiadau monograff ac fe'u rhestrir yn y catalog cyflawn. Mae fersiynau electronig o gyhoeddiadau swyddogol Cymreig ar gael drwy archif y we, a chyhoeddiadau diweddar di-Gymreig ar gael trwy *Public Information Online*.

PAPURAU ANSENEDDOL

Mae dehongliad y Llyfrgell o beth yw papur Anseneddol yn eang ac yn gynhwysol iawn. Yn ychwanegol at adrannau'r Llywodraeth ac asiantaethau gweithredol, mae'n cynnwys Cyrff Cyhoeddus, Cyrff Cyhoeddus Anadrannol, Cyrff Noddedig Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus. Yn gyffredinol, er bod cyhoeddiadau o'r fath yn rhai byr, maent yn cynnwys gwybodaeth nad yw ar gael yn unman arall. Mae canran uchel o gyhoeddiadau anseneddol yn rhad ac am ddim (heb eu prisio), ac ni chaiff cyhoeddiadau o'r fath eu rhestru yn y catalogau TSO.

Mae rhai o'r prif gyfresi yn cynnwys cyfrifiad Dogfennau Prydeinig Imperialaidd India, adroddiadau India'r Dwyrain, amrywiol gyfresi monograffig yn cwmpasu Meddyginiaeth ac Iechyd, cyhoeddiadau o ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif yn ymwneud ag Amddiffyn, pynciau Militaraidd a Morwrol, cyhoeddiadau'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, a chyhoeddiadau'r Bwrdd Iechyd Cymreig.

in the full catalogue. Electronic versions of Welsh official publications can be found in the web archive and recent non-Welsh publications can be searched via *Public Information Online*.

NON-PARLIAMENTARY PAPERS

The Library's interpretation of what constitutes a Non-Parliamentary publication is very broad and inclusive. In addition to Government departments and executive agencies, it includes Public Bodies, Non-Departmental Public Bodies, Welsh Government Sponsored Bodies and organisations that are publicly funded. Generally, such publications may be brief, but contain information not available elsewhere.

A high percentage of non-parliamentary publications are free (unpriced), and as such are not listed in the TSO catalogues.

Some of the major series include census of India British Imperial Documents, East Indies reports, various monographic series covering Medicine and Health, late 19th century and early 20th century publications covering Defence, Military and Naval subjects, Ministry of Agriculture, Fisheries and Food publications and Welsh Board of Health Publications.

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL PRYDEINIG

PAPURAU SENEDDOL

- Papurau Tŷ'r Cyffredin: ymdriniaeth rannol o 1837/1838: set gyflawn o sesiwn 1986/1987–.
- Mesurau Tŷ'r Cyffredin: ymdriniaeth rannol 1801–1832, 1837–1838, 1888–1912/13, set gyflawn 1910–.
- Papurau Gorchymyn: ymdriniaeth rannol o'r Gyfres 1af, cyfres 1 & 2, (C.1–), (Wedi'u trefnu yn ol pwnc, wedi'u rhwymo). Cyfres set gyflawn Cm.1–, 1986–.
- Papurau Tŷ'r Cyffredin set gyflawn 1914/1916–1986/1987: set gyflawn 1986/1987–.
- Mesurau Tŷ'r Arglwyddi: set gyflawn 1986/1987–.

DADLEUON SENEDDOL

- Dadleuon Senedd 1803–1908: set gyflawn, y gyfres 1af 1803–1820, 2il gyfres 1820–1830, 3edd gyfres 1830–1891 a 4edd cyfres 1891–1908.
- Dadleuon Tŷ'r Cyffredin: set gyflawn, 5ed gyfres 1901–1981, 6ed gyfres, 1981–. Mae'r Llyfrgell hefyd yn dal Hansards dyddiol ac wythnosol o 1986/1987 hyd 2010/2011.
- Dadleuon Tŷ'r Arglwyddi, 1909–: set gyflawn 5ed gyfres o 1909.
- Mae Dadleuon Seneddol hefyd ar gael trwy *Public Information Online*.

BRITISH OFFICIAL PUBLICATIONS

PARLIAMENTARY PAPERS

- House of Commons Papers: partial coverage from 1837/1838: complete set from session 1986/1987–.
- House of Commons Bills: partial coverage 1801–1832, 1837–1838, 1888–1912/13, complete set 1910–.
- Command Papers: partial coverage 1st Series, 1st & 2nd series, (C1–), (Arranged by subject, bound). Complete set Series Cm. 1–, 1986–.
- House of Lords Papers: complete set 1914/1916–1986/1987: complete set 1986/1987–.
- House of Lords Bills: complete set 1986/1987–.

PARLIAMENTARY DEBATES

- Parliamentary Debates, 1803–1908: complete set 1st series 1803–1820, 2nd series 1820–1830, 3rd series 1830–1891 and 4th series 1891–1908.
- House of Commons Debates: complete set 5th series 1901–1981, 6th series from 1981. NLW also holds daily and weekly Hansards from 1986/1987 to 2010/2011.
- House of Lords Debates, 1909–: complete set 5th series 1909–. The Library also holds daily and weekly Hansards from 1986/1987 to 2010/2011.
- Parliamentary Debates are also available via *Public Information Online*.

CYLCHGRONAU

- Cylchgronau Tŷ'r Cyffredin: set gyflawn cyf. 1– (ac eithrio 1881).
- Cylchgronau Tŷ'r Arglwyddi: ymdriniaeth rannol 1509–1880, 1909–1912, set gyflawn 1913–, ynghyd â mynegeion cyffredinol.
- Pleidleisiau a Thrafodion Tŷ'r Cyffredin: ymdriniaeth rannol 1718–1721, 1763–1786, 1795–1798, 1808, 1807, 1864–1912/13.
- Cofnodion Trafodion Tŷ'r Arglwyddi: ymdriniaeth rannol 1864–1913.
- *The London Gazette*: set gyflawn 1912–.

DEDDFWRIAETH

- Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus: ymdriniaeth rannol o 1688, set gyflawn 1901–.
- Deddfau Lleol a Phersonol: ymdriniaeth rannol o'r 18fed ganrif, set gyflawn 1987–. (Mae gan y Llyfrgell gasgliad sylweddol o Ddeddfau Lleol a Phersonol sy'n berthnasol i Gymru).
- Statudau'r Deyrnas / Statutes of the Realm: 1101–. 9 cyfrol, mynegai 1101–1713.
- Offerynnau Statudol: set gyflawn 1910–.
- Mesurau Eglwys Lloegr: set gyflawn 2000–.
- Offerynnau Statudol Lleol: mae gan y Llyfrgell rai Offerynnau Statudol Lleol sy'n berthnasol i Gymru.

JOURNALS

- House of Commons Journals: complete set vol. 1– (lacking 1881).
- House of Lords Journals: partial coverage 1509–1880, 1909–1912, Complete set from 1913, together with General Indexes.
- House of Commons Votes and Proceedings: partial coverage 1718–1721, 1763–1786, 1795–1798, 1808, 1807, 1864–1912/13.
- House of Lords Minutes of Proceedings: partial coverage 1864–1913.
- *The London Gazette*: complete set 1912–.

LEGISLATION

- Public General Acts: partial coverage from 1688, complete set 1901–.
- Local and Personal Acts: partial coverage 18th Century, complete set 1987– . (The National Library of Wales has a substantial collection of Local and Personal Acts that relate to Wales).
- Statutes of the Realm: 1101. 9v. Index 1101–1713.
- Statutory Instruments: complete set 1910–.
- Church of England Measures: complete set 2000– .
- Local Statutory Instruments: The National Library of Wales has some Local Statutory Instruments that relate to Wales.

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL CYMREIG

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Set gyflawn o gyhoeddiadau printiedig o 1999 ymlaen yn cynnwys rhai o eiddo Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Llywodraeth Cymru. Cyhoeddir nifer o ddogfennau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys Cofnod y Trafodion, ar fformat ar-lein yn unig ond hefyd mae gan y Llyfrgell gopïau priniedig o'r Cofnod o 1999 - 2000. Mae nifer o gyhoeddiadau a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru rhwng 1999 a 2007 yn awr yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chylchlythyr Iechyd Cymru. Caiff dogfennau a roddir gerbron y Cynulliad eu trin fel monograffau a'u catalogio'n unigol yn y catalog cyflawn. Gellir gweld copïau wedi eu harchifo o wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
www.webarchive.org.uk/ukwa/target/8486916/source/

LLYWODRAETH CYMRU

- Set gyflawn o gyhoeddiadau 2007– yn cynnwys Cylchlythyr Iechyd Cymru, Cylchlythyr Llywodraeth Cymru a chyhoeddiadau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC/AGSBs).

DEDDFWRIAETH

- Offerynnau Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: set gyflawn 1999–2007.

WELSH OFFICIAL PUBLICATIONS

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

Complete set of printed publications from 1999 including those of Welsh Goverment Sponsored Public Bodies. Many National Assembly for Wales documents including the Record of Proceedings are published in on-line format only although the Library holds printed copies from the period 1999 - 2000. Many publications issued by the National Assembly for Wales between 1999 and 2007 are now issued by the Welsh Government, including the National Assembly for Wales Circular and Welsh Health Circular. Documents laid before the Assembly are treated as monographs and catalogued individually in the full catalogue. Archived copies of the National Assembly for Wales website can be found at:
www.webarchive.org.uk/ukwa/target/8486916/source/

WELSH GOVERNMENT

- A complete set of publications from 2007 including Welsh Health Circular, Welsh Government Circular and publications of Welsh Government Sponsored Bodies (AGSBs).

LEGISLATION

- National Assembly for Wales Statutory Instruments: complete set 1999–2007.
- Welsh Statutory Instruments: complete set 2007–2011, including a full set of official prints.

- Offerynnau Statudol Cymreig: set gyflawn 2007–11, gan gynnwys set gyflawn o argraffiadau swyddogol.
- Actau Cynullia Cenedlaethol Cymru 2011.
- Mesurau'r Cynulliad: set gyflawn 2007–.
- Mae Offerynnau Statudol unigol, Deddfau a Mesurau yn cael eu trin fel rhannau o gyfnodolyn, fodd bynnag lle mae ail gopi wedi ei sicrhau bydd yn cael ei gatalogio'n unigol fel cyhoeddiad monograff yn y catalog cyflawn.

CYHOEDDIADAU ELECTRONIC

- Gellir cael copiau achif o wefan llywodraeth Cymru ar **www.webarchive.org.uk/ukwa/target/122171/source/search.**
- Gellir gweld copiau archif o gyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru ar **www.webarchive.org.uk**

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL YR ALBAN

SENEDD YR ALBAN

- Set gyflawn 1999– o gyhoeddiadau Senedd yr Alban yn cynnwys yr Adroddiad Swyddogol, Bwletin Busnes, Papurau Senedd yr Alban, Mesurau Senedd yr Alban.

LLYWODRAETH YR ALBAN (YN FLAENOROL GWEITHREDIAETH YR ALBAN)

- Papurau Gweithrediaeth yr Alban (Papurau SE): set gyflawn 1999–2007.

- Acts of the National Assembly for Wales 2011-.
- Assembly Measures: complete set 2007–.
- Individual Statutory Instruments and UK Acts are treated as parts of a periodical; however, where a second copy of a UK Act relating to Wales has been acquired it will be catalogued individually as a monograph publication in the full catalogue.

ELECTRONIC PUBLICATIONS

- Archived copies of the Welsh Government website can be found at **www.webarchive.org.uk/ukwa/target/122171/source/search.**
- Archive copies of other Welsh Government publications can be found at **www.webarchive.org.uk**

SCOTTISH OFFICIAL PUBLICATIONS

SCOTTISH PARLIAMENT

- Complete set from 1999 of Scottish Parliament publications including the Official Report, Business Bulletin, Scottish Parliament Papers, Scottish Parliament Bills.

SCOTTISH GOVERNMENT (FORMERLY SCOTTISH EXECUTIVE)

- Scottish Executive Papers (SE Papers): complete set 1999–2007.
- Scottish Government Papers (SG Papers): complete set 2007–.

- Papurau Llywodraeth yr Alban (Papurau SG): set gyflawn 2007–.

DEDDFWRIAETH

- Offerynnau Statudol yr Alban: set gyflawn 1999–.
- Deddfau Senedd yr Alban: set gyflawn 1999–.
- Cyfres Cludiant y Mesur: set gyflawn 1999–.

CYLCHGRONAU

- *The Edinburgh Gazette*: set gyflawn 1985–.

Ni chesglir rhai cyhoeddiadau swyddogol o'r Alban bellach mewn fformat printiedig, ond maent ar gael drwy *Public Information Online*.

LEGISLATION

- Scottish Statutory Instruments: complete set 1999–.
- Acts of the Scottish Parliament: complete set 1999–.
- Passage of the Bill Series: complete set 1999–.

JOURNALS

- *The Edinburgh Gazette*: complete set 1985–.

Some Scottish official publications are no longer collected in print format but are available via *Public Information Online*.

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL GOGLEDD IWERDDON

SENEDD GOGLEDD IWERDDON, 1922–1972

- Dadleuon Tŷ'r Cyffredin: set gyflawn 1922–1972.
- Dadleuon y Senedd: set gyflawn
- 1922–1972.

SENEDD GOGLEDD IWERDDON, 1973–1974

- Adroddiad Swyddogol y Cynulliad: set gyflawn 1973–4.

NORTHERN IRELAND OFFICIAL PUBLICATIONS

NORTHERN IRELAND PARLIAMENT, 1922–1972

- Commons Debates: complete set 1922–1972.
- Senate Debates: complete set 1922–1972.

NORTHERN IRELAND ASSEMBLY, 1973–1974

- Official Report of the Assembly: complete set 1973–4.



Prime Minister Clement Attlee (gcc04177)

CYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON, 1982–1986

- Adroddiad Swyddogol y Senedd: set gyflawn 1982–1983.

CYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON, 1999–

- Adroddiad Swyddogol y Senedd: set gyflawn 1999–.
- Papurau Cynulliad Gogledd Iwerddon (NIA): set gyflawn 1999–.

GWEITHREDIAETH GOGLEDD IWERDDON

- Amrywiol gyhoeddiadau Gweithrediaeth ac Adrannau Gogledd Iwerddon.

DEDDFWRIAETH

- Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon: ymdriniaeth rannol 1982–1985, set gyflawn 1985–.
- Deddfau Cynulliad Gogledd Iwerddon: set gyflawn 1999–.
- Statudau Gogledd Iwerddon: set gyflawn 1992–.

CYLCHGRONAU

- *The Belfast Gazette*: set gyflawn 1921–.

Ni chesglir rhai cyhoeddiadau swyddogol o Ogledd Iwerddon bellach mewn fformat printiedig, ond maent ar gael drwy *Public Information Online*.

NORTHERN IRELAND ASSEMBLY, 1982–1986

- Official Report of the Assembly: complete set 1982–1983.

NORTHERN IRELAND ASSEMBLY, 1999–

- Official Report of the Assembly: complete set 1999– .
- Northern Ireland Assembly Papers (NIA): complete set 1999– .

NORTHERN IRELAND EXECUTIVE

- Various publications of the Northern Ireland Executive and Departments.

LEGISLATION

- Statutory Rules of Northern Ireland: partial coverage 1982–1985, complete set 1985–.
- Acts of the NI Assembly: complete set 1999–.
- Northern Ireland Statutes: complete set 1992–.

JOURNALS

- *The Belfast Gazette*: complete set 1921–.

Some Northern Ireland official publications are no longer collected in print format but are available via *Public Information Online*.

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL GWERINIAETH IWERDDON

CYHOEDDIADAU SENEDDOL

- Adroddiad Swyddogol Dáil Éireann: set gyflawn 1927–.
- Adroddiad Swyddogol Seanad Éireann: set gyflawn 1926–.
- Papurau Gorchymyn Dáil Éireann:
  - Cwestiynau Dáil Éireann: ymdriniaeth rannol 1986–1990, set gyflawn 2003–.
  - Papurau Gorchymyn Seanad Éireann: ymdriniaeth rannol 1985–1989, set gyflawn 2003–.
  - Mesurau a Nodiadau Eglurhaol: set gyflawn 1982–.
  - Ers 2011, mae rhai cyhoeddiadau seneddol ar gael yn electronig yn unig, felly nid ydynt yn cael eu casglu.

CYHOEDDIADAU ADRANNOL Y LLYWODRAETH

- Amrywiol gyfresi a monograffau ers 1922.

DEDDFWRIAETH

- Offerynnau Statudol: set gyflawn 1922–.
- Deddfau'r Oireachtas fel y'u cyhoeddwyd: set gyflawn 1986–.
- Deddfau'r Oireachtas: set gyflawn 1922–.

REPUBLIC OF IRELAND OFFICIAL PUBLICATIONS

PARLIAMENTARY PUBLICATIONS

- Dáil Éireann Official Report: complete set 1927–.
- Seanad Éireann Official Report: complete set 1926–.
- Dáil Éireann Order Papers:
  - Dáil Éireann Questions: partial coverage 1986–1990, complete set 2003–.
  - Seanad Éireann Order Papers: partial coverage 1985–1989, complete set 2003–.
  - Bills and Explanatory Notes: complete set 1982–.
  - Since 2011 some parliamentary publications are only avaible in electronic format and are therefore not collected.

GOVERNMENT DEPARTMENTAL PUBLICATIONS

- Various serials and monographs since 1922.

LEGISLATION

- Statutory Instruments: complete set 1922–.
- Acts of the Oireachtas as promulgated: complete set 1986–.
- Acts of the Oireachtas: complete set 1922–.

CYLCHGRONAU

- *Iris Oifigiúil*: set gyflawn 1925–.
- Atodiad I*ris Oifigiúil*: set gyflawn 2000–.

ADBRINTIADAU TESTUN LLAWN

- Printiedig: Papurau Sesiynol Tŷ'r Cyffredin, 18fed ganrif [gol. S. Lambert]: cyflawn, cyfrolau 1–145, mynegai.
- Printiedig: Papurau Sesiynol Tŷ'r Arglwyddi, 1714–1805 [gol. F.W. Torrington]: cyflawn, 60 cyfrol.
- Printiedig: Papurau Seneddol Gwasg Prifysgol Iwerddon: cyflawn, 1000 cyfrol.
- Microffilm: Papurau Seneddol, 1801– [Chadwyck Healey]: cyflawn.

ERAILL:

- Adbrint Kraus o ddadleuon seneddol Hansard. Adargraffiad Kraus Efrog Newydd, 1971: mae'r cyfrolau a ailargaffwyd wedi eu caffael er mwyn llenwi'r bylchau yn naliadau'r set wreiddiol.
- Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 1621 Wallace Notestein. Newhaven and London: Yale University Press: Humphrey Milford, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1935: 7 cyfrol gyflawn.
- Dadleuon Tŷ'r Cyffredin 1628, gol. Robert C. Johnson (et al). Newhaven and London: Yale, University Press 1977: cyflawn, 4 cyfrol.
- Deddfau Seneddau yr Alban. Argraffwyd trwy Orchymyn Ei Mawrhydi yn unol â Thŷ'r Cyffredin Prydain Fawr 1844: cyflawn, 12 cyfrol a mynegai cyffredinol 1124–1707.
- Y Statudau wedi'u hadolygu, 3ydd argraffiad.

JOURNALS

- *Iris Oifigiúil*: complete set 1925–.
- *Iris Oifigiúil* Supplement: complete set 2000–.

FULL-TEXT REPRINTS

- Printed: HoC Sessional Papers, 18th century [ed. S. Lambert]: Complete, v. 1–145, index v.
- Printed: HoL Sessional Papers, 1714–1805 [ed. F.W. Torrington]: Complete 60v.
- Printed: Irish University Press Parliamentary Papers: complete, 1000 v.
- Microfilm: Parliamentary Papers, 1801– [Chadwyck Healey]: complete.

OTHERS:

- Kraus reprint of Hansards parliamentary debates. Kraus reprint New York, 1971: the reprint volumes have been acquired to fill gaps in the holdings of the original set.
- House of Commons Debates 1621 Wallace Notestein. New Haven and London. Yale University Press: Humphrey Milford, Oxford University Press, 1935: complete 7 v.
- Commons Debates 1628. ed. Robert C Johnson (et al). Newhaven and London: Yale University Press 1977: complete 4 v.
- Acts of the Parliaments of Scotland. Printed by Command of Her Majesty in pursuant of the House of Commons of Great Britain 1844: Complete 12 v. and general index 1124–1707.
- The Statutes revised 3rd ed.

CASGLIADAU RHYNGWLADOL

Mae'r Llyfrgell yn llyfrgell storfa rannol i nifer o fudiadau tramor a cheir monograffau, cyfnodolion, papurau, adroddiadau, ystadegau, papurau polisi a chylchgronau yn y casgliad. Ceir cyhoeddiadau cyrff megis y Cenhedloedd Unedig, Cymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, Cymdeithas Diogelwch a Chydweithredu Ewrop, Y Llys Barn Rhyngwladol, Yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, Y Gronfa Arian Ryngwladol, Y Gymdeithas Forwrol Ryngwladol, Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol a'r Cyngor Ewropeaidd yn y casgliad hwn.

CYHOEDDIADAU SWYDDOGOL SEFYDLIADAU RHYNGWLADOL

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru gasgliadau helaeth o gyhoeddiadau asiantaethau rhyngwladol yn ogystal â Chyhoeddiadau Prydeinig, Datganoledig a Gwyddelig Swyddogol. Nid yw rhai papurau penodol ar gael eto drwy'r catalog cyflawn ond mae'r rhan fwyaf o gyhoeddiadau monograff a chyfresol wedi eu catalogio'n llawn a gellir eu canfod drwy chwilio'r catalog cyflawn.

Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn llyfrgell Adnau Rheolaidd [DL241] ac yn talu ffi i'r Cenhedloedd Unedig fel cyfraniad tuag at gost nwyddau a dderbynnir, costau postio a gweinyddu. Mae'r casgliad yn dyddio'n ôl i'r 1920au ac yn cynnwys dogfennau a gyhoeddwyd gan ragflaenydd y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair y Cenhedloedd.

INTERNATIONAL COLLECTIONS

The Library also acts as a partial depository library for a number of international organisations and the collection contains monographs, periodicals, papers, statistics, policy documents and magazines from these agencies. The depositing organisations include the United Nations, Organisation for Security and Co-operation in Europe (OSCE), the Organisation for Economic Co-operation and Development (OECD), the International Atomic Energy Agency, the International Monetary Fund, the International Maritime Organisation, the International Labour Organisation and the Council of Europe.

OFFICIAL PUBLICATIONS OF INTERNATIONAL ORGANISATIONS

The National Library of Wales holds extensive collections of international agency publications in addition to British, Devolved and Irish Official Publications. Certain papers are not yet available via the full catalogue but most monograph and serial publications are fully catalogued and can be found by searching the full catalogue.

UNITED NATIONS ORGANISATION

The National Library of Wales is a Regular Deposit library [DL241] and pays a fee to the UN as a contribution towards the costs of goods received, postage and administration costs. The collection dates back to the 1920s and includes documents published by the UN's forerunner, The League of Nations.

The Library receives material published by the following organs of the United

Mae'r Llyfrgell yn derbyn deunydd a gyhoeddwyd gan organau canlynol y Cenhedloedd Unedig, yn cynnwys cyfnodolion, monograffau a phapurau sesiynol:

- Y Cynulliad Cenedlaethol.
- Y Cyngor Diogelwch.
- Y Cyngor Economaidd a Chymdeithasol.
- Yr Ysgrifenyddiaeth.

Derbyniodd y Llyfrgell gyhoeddiadau'r Cyngor Ymddiriedolaeth hyd nes ei atal yn 1994. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol cyrff ac asiantaethau atodol y Cenhedloedd Unedig fel atodiadau i Gofnodion Swyddogol y Cynulliad Cyffredinol.

Derbynnir cyhoeddiadau monograff a chyfnodolion hefyd gan asiantaethau Cenhedloedd Unedig eraill megis Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol (IMO), y Swyddfa Llafur Rhyngwladol/International Labour Office (ILO), Banc y Byd, Y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) a Chronfa Blant y Cenhedloedd Unedig (UNICEF).

Mae monograffau a chyfnodolion o'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA) hefyd yn cael eu hadneuo ynghyd â phapurau sesiynol y Gynhadledd Gyffredinol o Sesiwn 4 (1960).
Ni chofnodir daliadau cyn 1986 ar gyfer nifer o gyhoeddiadau monograff a chyfresol (gan gynnwys blwyddlyfrau a bwletinau ystadegol) er bod cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu rhoi ar y silff yn ôl teitl yng Nghasgliad y Cenhedloedd Unedig. Nid yw papurau sesiynol yr UN a'r IAEA ar gael drwy'r catalog cyflawn ar hyn o bryd.

Nations including periodicals, monographs and sessional papers:

- The General Assembly
- The Security Council
- The Economic and Social Council
- The Secretariat

The Library received publications of the Trusteeship Council until its suspension in 1994. Annual reports of the subsidiary bodies and agencies of the United Nations are published as supplements to the Official Records of the General Assembly.

Monograph and periodical publications are also received from other UN agencies such as the World Health Organisation (WHO), the International Maritime Organisation (IMO), the International Labour Office (ILO), the World Bank, the International Monetary Fund (IMF) and the United Nations Children's Fund (UNICEF).

Monographs and periodicals from the International Atomic Energy Agency (IAEA) are also deposited along with sessional papers of the General Conference from Session 4 (1960).

Pre-1986 holdings for many monograph and serial publications (including yearbooks and statistical bulletins) are not recorded, although such publications are shelved by title in the United Nations Collection. Sessional papers of the UN and the IAEA are currently not available via the full catalogue.

CYNULLIAD SENEDDOL CYNGOR EWROP

Mae'r Llyfrgell yn dal amrywiol ddogfennau o Gynulliad Seneddol Cyngor Ewrop o 1949:

- Adroddiad Swyddogol y Cynulliad Ymgynghorol 1949–1974.
- Adroddiad Swyddogol y Cynulliad Seneddol 1974–2006.
- Adroddiad Swyddogol y Cynulliad Seneddol (CD Rom) 2006–.
- Testunau a Fabwysiadwyd 1953–2003.
- Trefn y Dydd a Chofnodion Trafodion 1950–2003.
- Dogfennau 1951–.

Mae'r Cynulliad Seneddol yn cwrdd 4 gwaith y flwyddyn ym mis Ionawr (Sesiwn 1af), Ebrill (2il Sesiwn) Mehefin (3edd Sesiwn) a Hydref (4edd Sesiwn) gyda'r Cofnod a Dogfennau Swyddogol a'r Papurau Gweithredol yn cael eu trefnu mewn cyfrolau yn ôl y sesiwn.

Y SEFYDLIAD AR GYFER CYDWEITHREDIAD A DATBLYGIAD ECONOMAIDD (OECD)

Mae'r Llyfrgell yn dal nifer o gyhoeddiadau cyfresol a monograff yn cynnwys adroddiadau a bwletinau ystadegol. Nid yw daliadau cyn 1986 ar gyfer nifer o gyhoeddiadau cyfresol a monograff (gan gynnwys blwyddlyfrau a bwletinau ystadegol) wedi eu cofnodi er bod cyhoeddiadau o'r fath yn cael eu rhoi ar y silff yn ôl teitl yng nghasgliad yr OECD.

THE PARLIAMENTARY ASSEMBLY OF THE COUNCIL OF EUROPE

The Library holds various documents of the Parliamentary Assembly of the Council of Europe from 1949:
Official Report of the Consultative Assembly 1949–1974.

- Official Report of the Parliamentary Assembly 1974–2006.
- Official Report of the Parliamentary Assembly (CD Rom) 2006–.
- Texts Adopted 1953–2003.
- Order of the Day and Minutes of Proceedings 1950–2003.
- Documents 1951–.

The Parliamentary Assembly meets 4 times a year in January (1st Session), April (2nd Session), June (3rd Session) and October (4th Session) with the Official Record and Documents and Working Papers arranged in volumes by session.

ORGANISATION FOR ECONOMIC CO-OPERATION AND DEVELOPMENT (OECD)

The Library holds a number of serial and monograph publications including reports and statistical bulletins. Pre-1986 holdings for many monograph and serial publications (including yearbooks and statistical bulletins) are not recorded, although such publications are shelved by title in the OECD collection.

Y SEFYDLIAD AR GYFER DIOGELWCH A CHYDWEITHREDIAD YN EWROP (OSCE)

Mae'r Llyfrgell yn dal papurau gan amrywiol organau yr OSCE gan gynnwys:

- Y Cyngor Parhaol.
- Y Fforwm Economaidd.
- Y Fforwm ar gyfer Cydweithrediad ar y Gwasanaethau Diogelwch.
- Y Fforwm ar gyfer Cydweithrediad Diogelwch.
- Y Cyngor Gweinidogaethol.
- Yr Ysgrifennydd Cyffredinol.
- Y Swyddfa ar gyfer Sefydliadau Democrataidd a Hawliau Dynol (OHDIR).

Nid yw'r papurau hyn ar gael yn y catalog cyflawn eto.

Medrwch gael gwybodaeth bellach ynglyn â chyhoeddiadau swyddogol sydd yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy ymweld â **www.llgc.org.uk/cyhoeddiadauswyddogol**

GWEFANNAU DEFNYDDIOL

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – **www.cynulliadcymru.org**

Llywodraeth Cynulliad Cymru – **http://wales.gov.uk/?lang=cy**

Canolfan Cyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru – **http://wales.gov.uk/publications/publicationscentre/?lang=cy**

Swyddfa Cymru – **www.swyddfa.cymru.gov.uk**

ORGANISATION FOR SECURITY AND CO-OPERATION IN EUROPE (OSCE)

The Library holds papers of various organs of the OSCE including:

- The Permanent Council.
- The Economic Forum.
- The Forum for Co-operation on Security Services.
- The Forum for Security Co-operation.
- The Ministerial Council.
- The General Secretary.
- The Office for Democratic Institutions and Human Rights (OHDIR).

These papers are not yet available in the full catalogue.

Further information regarding official publication records held at The National Library of Wales can be found at **www.llgc.org.uk/officialpublications.**

USEFUL WEBSITES

National Assembly for Wales – **www.assemblywales.org**

Welsh Assembly Government – **http://wales.gov.uk/?lang=en**

Welsh Assembly Government Publications Centre – **http://wales.gov.uk/publications/publicationscentre/?lang=en**

Wales Office – **www.walesoffice.gov.uk**

Welsh Legislation Online – **www.wales-legislation.org.uk**

UK web archive – **www.webarchive.org.uk**

Deddfwriaeth Cymru arlein – **www.wales-legislation.org.uk**

Archif Gwefannau y DU – **www.webarchive.org.uk**

Senedd y Deyrnas Unedig – **www.parliament.uk**

Direct Gov – **www.direct.gov.uk/cy/index.htm**

Archif Gwefannau Swyddogol Prydeinig (Yr Archifdy Gwladol) – **www.nationalarchives.gov.uk/webarchive**

Senedd yr Alban – **www.scottish.parliament.uk**

Llywodraeth yr Alban – **www.scotland.gov.uk**

Cynulliad Gogledd Iwerddon – **www.niassembly.gov.uk**

Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon – **www.northernireland.gov.uk**

Y Cenhedloedd Unedig – **www.un.org/en/index.shtml**

Mynegai Dogfennau'r Cenhedloedd Unedig – **http://unbisnet.un.org/**

Llyfrgell Glyweledol Cyfraith Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig – **www.un.org/law/avl**

Holl deddfwriath DU (gan gynnwys gwledydd datganoledig) www.legislation.gov.uk

Parliament – **www.parliament.uk**

Direct Gov – **www.direct.gov.uk**

UK Government Web Archive (The National Archives) – **www.nationalarchives.gov.uk/webarchive/**

Scottish Parliament – **www.scottish.parliament.uk**
Scottish Government – **www.scotland.gov.uk**

Northern Ireland Assembly – **www.niassembly.gov.uk**

Northern Ireland Executive – **www.northernireland.gov.uk**

United Nations –

www.un.org/en/index.shtml

United Nations Documents Index – **http://unbisnet.un.org**

United Nations Audiovisual Library of International Law – **www.un.org/law/avl/**

All UK legislation (including develoved countries) www. legislation.gov.uk

David Lloyd George (jth01581)

www.llgc.org.uk
gofyn@llgc.org.uk
enquiry@llgc.org.uk
t: 01970 632800